Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Ardrethu Annomestig

Mehefin 2023

senedd.cymru

# 1. Y cefndir

## Y Bil Ardrethu Annomestig

**1.** Cyflwynwyd y Bil Ardrethu Annomestig (y Bil) i Dŷ'r Cyffredin a chafodd ei ddarlleniad cyntaf ar 29 Mawrth 2023. Noddir y Bil gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau.[1]

**2.** Yn y Nodiadau Esboniadol i'r Bil fel y'i cyflwynwyd, nodir fel a ganlyn:

> *"This Bill implements a number of changes to the system of non-domestic rates (known as business rates) in England and Wales. The majority of the provisions for England give effect to conclusions of the government's Business Rates Review which covered the rating system in England.*
>
> *The Welsh Government has requested that a number of measures be applied to Wales."*[2]

**3.** Mae teitl hir y Bil yn nodi pwrpas y Bil fel a ganlyn:

> *"Make provision about non-domestic rating".*

**4.** Cyfarfu Pwyllgor o'r Tŷ Cyfan i drafod y Bil ddydd Llun 22 Mai. Cynhaliwyd trydydd darlleniad hefyd ar 22 Mai. Cynhaliwyd y darlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 23 Mai. Ar adeg cytuno ar ein hadroddiad, roedd disgwyl i'r ail ddarlleniad gael ei gynnal ar 19 Mehefin.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**5.** Yn unol â Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2, mae'n ofynnol gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol yn y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu ei chymhwysedd deddfwriaethol.

[1] Y Bil Ardrethu Annomestig, fel y'i cyflwynwyd (Bil 285) [Saesneg yn unig]
[2] Y Bil Ardrethu Annomestig, Nodiadau Esboniadol, Mawrth 2023, paragraff 1 [Saesneg yn unig]

**6.** Ar 11 Mehefin 2023, gosododd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) mewn cysylltiad â'r Bil gerbron y Senedd.[3]

**7.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a'r Pwyllgor Cyllid gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 22 Mehefin 2023.[4]

## Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

**8.** Yn ôl asesiad Llywodraeth Cymru, mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y darpariaethau a ganlyn yn y Bil, fel y nodir ym mharagraffau 13 i 44 o'r Memorandwm:

- cymal 1 (Ardrethu lleol: atebolrwydd a rhyddhadau gorfodol ar gyfer hereditamentau a feddiennir);
- cymal 3 (Ardrethu canolog: atebolrwydd a rhyddhadau gorfodol);
- cymal 10 (Datgelu gwybodaeth brisio i dalwyr ardrethi);
- cymal 11 (Datgelu gwybodaeth brisio i swyddogion ardrethu Gogledd Iwerddon);
- cymal 12 (Rhannu gwybodaeth ardrethi annomestig rhwng awdurdodau bilio a CThEF);
- cymal 13 (Gofynion i dalwyr ardrethi etc ddarparu gwybodaeth);
- cymal 15 (Lluosyddion);
- cymal 17 (Darpariaeth ganlyniadol);
- cymal 19 (Cychwyn a chymhwyso);
- yr Atodlen (Darpariaeth ganlyniadol).

**9.** Mae paragraffau 48 a 49 o'r Memorandwm ac Atodiad A o'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn rhoi manylion am asesiad Llywodraeth y DU o gwmpas tiriogaethol a chymhwysiad y Bil.

[3] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Ardrethu Annomestig Ebrill 2023
[4] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu Annomestig, Ebrill 2023

**10.** Mae Llywodraeth y DU o’r farn y byddai'r broses cydsyniad deddfwriaethol yn cael ei defnyddio, mewn perthynas â Chymru, ar gyfer cymalau 1, 3, 10 i 13, 15 a 17 i 20 o'r Bil a'r Atodlen i'r Bil.

## Pwerau dirprwyedig

**11.** Rhoddir pwerau newydd i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru fel a ganlyn:

- Mae cymal 1 yn cyflwyno dau ryddhad ardrethi annomestig newydd – “rhyddhad ardrethi gwelliannau” a “rhyddhad ardrethi rhwydweithiau gwresogi” – a fydd yn gymwys mewn perthynas â hereditamentau a feddiennir ar restrau lleol a leolir yng Nghymru a Lloegr. Mae cymal 1 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi ystyr “gwaith gwella cymwys” a “rhwydwaith gwresogi” a bydd rheoliadau o’r fath yn ddarostyngedig i’r weithdrefn negyddol. Caiff Gweinidogion Cymru ymestyn y cyfnod y bydd y rhyddhadau newydd yn gymwys ac mae’r rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

- Mae cymal 3 yn cyflwyno rhyddhad ardrethi i elusennau a rhyddhad ardrethi gwelliannau ar gyfer hereditamentau cymwys ar restrau canolog Cymru a Lloegr. Mae cymal 3 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi ystyr “gwaith gwella cymwys”, a bydd rheoliadau o’r fath yn ddarostyngedig i’r weithdrefn negyddol. Caiff Gweinidogion Cymru ymestyn y cyfnod y bydd y rhyddhadau newydd yn gymwys ac mae’r rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

- Mae cymal 17 yn rhoi pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru er mwyn gwneud diwygiadau canlyniadol sy'n codi o'r Bil. Bydd rheoliadau sy'n diwygio neu yn diddymu darpariaeth a wnaed gan ddeddfwriaeth sylfaenol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft. Bydd unrhyw reoliadau eraill yn ddarostyngedig i’r weithdrefn negyddol.

- Mae cymal 19 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gychwyn cymalau 10, 12, 13(1), 13(2), 13(4), 13(6), 15(1), 15(3)(a), 15(3)(c)(ii), 15(3)(d), a 15(4) o'r Bil a pharagraffau 17(1)(d), 39(a), 40, 46, 49(c) a (d), 50, a 53(a) o'r Atodlen i'r Bil, i'r graddau y mae'r darpariaethau hynny'n ymwneud â Chymru.

**12.** Mae cymal 13(2) o'r Bil a pharagraffau 49(c) a 50 yn Rhan 4 o'r Atodlen i'r Bil yn rhoi pwerau newydd i wneud rheoliadau i Gomisiynwyr Cyllid a Thollau Ei

Fawrhydi, y mae'n rhaid iddynt ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau i'r graddau y maent yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru.

**13.** Yn y Memorandwm, mae’r Gweinidog yn nodi fel a ganlyn:

> *“Mae’r Bil fel y’i cyflwynwyd yn cynnwys pwerau dirprwyedig cyfyngedig mewn perthynas â chymal 13 a Rhan 4 o’r Atodlen.*
>
> *Nid oedd digon o amser cyn i’r Bil gael ei gyflwyno i ddod i gytundeb pendant ynghylch yr hyn a fyddai’n briodol o ran dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru. Serch hynny, gan eu bod yn gwneud darpariaeth ar gyfer diben o fewn cymhwysedd y Senedd, bydd angen cydsyniad deddfwriaethol ar eu cyfer.*
>
> *Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ynghylch yr hyn a fyddai’n briodol o ran dirprwyo pwerau, ac mae disgwyl trafodaethau pellach am y pwerau penodol hyn wrth i’r Bil fynd rhagddo.”*[5]

**14.** Mae cymal 15 o’r Bil yn diwygio pwerau gwneud rheoliadau a roddwyd eisoes i Weinidogion Cymru.

**15.** Mae cymal 15(3)(d) yn diwygio'r weithdrefn ar gyfer pwerau penodol i wneud rheoliadau a roddwyd i Weinidogion Cymru gan *Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021* (Deddf 2021) a fewnosododd is-baragraffau 13A i 13C ym mharagraff 5 o Atodlen 7 i Ddeddf 1988 mewn perthynas â Chymru. Mae is-baragraff 13A yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i newid y dull ar gyfer cyfrifo’r lluosydd ardrethi annomestig ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

**16.** Mae cymal 15(3)(d) yn diwygio is-baragraff 13C o Ddeddf 1988 drwy newid y weithdrefn gadarnhaol ‘gwnaed’ a oedd yn gymwys i reoliadau o’r fath, i’r weithdrefn gadarnhaol ddrafft. Nid yw’r Gweinidog yn egluro’n fanwl yn y Memorandwm pam y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio newid y weithdrefn ar gyfer y pŵer i wneud rheoliadau, a hynny ychydig dros ddwy flynedd ers i Ddeddf 2021 gael cydsyniad brenhinol.

[5] Y Memorandwm, paragraffau 45 i 47

## Materion perthnasol eraill

**17.** Mae cymal 15(4) o’r Bil yn gwneud diwygiadau i baragraff 6 o Atodlen 7 i Ddeddf 1988 sy’n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyfrifo’r lluosydd ardrethi annomestig ar gyfer pob blwyddyn ariannol mewn perthynas â Chymru, a chyflwyno hysbysiad i bob awdurdod bilio yn datgan bod y lluosydd wedi’i gyfrifo felly.

**18.** Mae cymal 15(4) yn hepgor is-baragraff (4B) o baragraff 6 o Atodlen 7 i Ddeddf 1988, sy'n datgan bod cyfrifiad yn annilys oni bai bod un neu'r ddau o'r amodau a ganlyn yn cael eu bodloni:

a. ei fod yn cael ei wneud ar ôl i’r Senedd gymeradwyo’r adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn (neu’r ddau adroddiad os yw Gweinidogion Cymru yn llunio dau adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn); a/neu

b. ei fod yn cael ei wneud ar ôl 1 Mawrth yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

**19.** Ym mharagraff 39 o'r Memorandwm, dywed y Gweinidog fod y newidiadau a wnaed gan gymal 15(4) yn dileu cyfyngiad amseru sy'n “atal awdurdodau lleol rhag bwrw ymlaen â swyddogaethau bilio yn amserol pan fo gwerth y lluosydd yn hysbys yn gynharach”.

## Safbwynt Llywodraeth Cymru, a’r rhesymau dros wneud y darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil

**20.** Ym mharagraffau 4, 6, 7 a 63 o’r Memorandwm, mae’r Gweinidog yn datgan bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio ac wedi gofyn am ddarpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil. Yn benodol, ym mharagraff 6, mae'r Gweinidog yn nodi:

> *“Mae’r Bil yn gyfle i gyflwyno diwygiadau penodol yn gynharach nag a fyddai’n bosibl fel arall a, lle bydd swyddogaethau penodol asiantaethau Llywodraeth y DU yn cael eu haddasu, i sicrhau na fydd talwyr ardrethi yng Nghymru o dan anfantais. Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio darpariaethau ar gyfer Cymru lle y mae nodau polisi yn cyd-fynd, a lle y ceir budd drwy sicrhau dulliau o gynorthwyo talwyr ardrethi cyn gynted ag y bo modd. Rydym hefyd wedi ceisio darpariaethau i gefnogi ein hymwneud parhaus â’r Rhaglen Digideiddio Ardrethi Busnes. Mae hyn yn adlewyrchu natur ryng-gysylltiedig systemau*

*ardrethi annomestig Cymru a Lloegr, a'r tebygrwydd gweinyddol rhyngddynt."*

**21.** Ym mharagraff 7 o'r Memorandwm, mae'r Gweinidog yn ychwanegu:

> *"Mae swyddogion Llywodraeth y DU wedi bod yn cydweithredu mewn trafodaethau â'm swyddogion ar ddatblygiad y Bil. Gofynnwyd am eglurder ynghylch ble y byddai'n fuddiol i ddarpariaethau fod yn gymwys i Gymru a Lloegr fel ei gilydd, a bu Llywodraeth y DU yn agored i gais Llywodraeth Cymru i gynnwys darpariaethau penodol yn y Bil."*

**22.** Mae'r rhesymau a nodwyd gan y Gweinidog dros wneud darpariaeth i Gymru yn y Bil yn cynnwys:

- Dim ond drwy ddeddfwriaeth sylfaenol y gellir gwneud y newidiadau hyn a bwriedir bwrw ymlaen â'r newidiadau drwy Fil gan Lywodraeth y DU gan y byddai'n fuddiol i'w gweithredu cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.[6]

- Byddai aros am Fil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) sydd yn yr arfaeth gan Lywodraeth Cymru yn arwain at anfantais i Lywodraeth Cymru a thalwyr ardrethi yng Nghymru a byddai aildrefnu Bil Llywodraeth Cymru yn cael effeithiau negyddol ehangach ar ei rhaglen ddeddfwriaethol.[7]

- O ystyried natur ryng-gysylltiedig cyfundrefnau ardrethi annomestig perthnasol Cymru a Lloegr (a'r ffaith bod Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn asiantaeth drawsffiniol), byddai'n briodol gwneud darpariaeth ar gyfer ymdrin â'r ddwy (yng nghymal 10 o'r Bil) ar yr un pryd yn yr un offeryn deddfwriaethol. Bwriad rhoi i Weinidogion Cymru bŵer i gychwyn y ddarpariaeth hon drwy reoliadau o ran Cymru yw sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn gallu rheoli amseriad y broses weithredu. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio i sicrhau bod newidiadau'n cael eu cyflwyno ar adeg pan fyddant yn gallu cael yr holl effaith a ddymunir. Y bwriad yw cyflwyno'r rhain tra bo rhestr ardrethu 2023 ar waith ac o bosibl cyn i Fil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) sydd yn yr arfaeth, sef yr offeryn deddfwriaethol addas nesaf, gael y Cydsyniad Brenhinol.[8]

[6] Y Memorandwm, paragraff 50
[7] Y Memorandwm, paragraff 50. Gweler hefyd baragraffau 51 a 52.
[8] Y Memorandwm, paragraff 53. Gweler hefyd baragraff 54.

- Mae cymalau 12 a 13 yn sefydlu'r pyrth gwybodaeth angenrheidiol i alluogi gweithredu'r Rhaglen Digideiddio Ardrethi Busnes. Bydd y rhaglen yn cael ei gweithredu gan CThEF ledled Cymru a Lloegr, fel y gall Llywodraeth Cymru elwa ar set ddata gysylltiedig, gan gynnwys data treth CThEF, na fyddai fel arall yn gallu cael mynediad ati. Byddai gwahaniaeth mewn dull gweithredu yn peri risg na fyddai talwyr ardrethi Cymru, awdurdodau bilio yng Nghymru, na Llywodraeth Cymru yn gallu elwa ar y rhaglen. Os na fydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ei hymwneud â datblygu'r rhaglen, efallai y bydd yn anos ac o bosibl yn gostus ac yn anymarferol ei hailestyn i Gymru yn ddiweddarach.[9]

- Mae newidiadau yng nghymal 15 yn gysylltiedig â gweithrediad y lluosydd. Eir i'r afael â hwy ar hyn o bryd gan eu bod yn cywiro, yn rhannol, wallau deddfwriaethol sy'n bodoli eisoes ac yn darparu mwy o eglurder deddfwriaethol, a byddai'n afresymol gadael gwallau heb eu newid yn hwy nag sydd ei angen.[10]

**23.** Ym mharagraff 64 o'r Memorandwm, mae'r Gweinidog yn datgan y byddai rhai darpariaethau eraill o fewn y Bil yn ddymunol i Gymru. Mae'r Gweinidog yn cydnabod y bydd peidio â bwrw ymlaen â darpariaethau o'r fath ar gyfer Cymru yn y Bil yn arwain at anghysondebau rhwng y ddwy system ardrethi. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog yn dweud "mai bach iawn yw'r risg y byddai'r darpariaethau hyn yn cael effaith negyddol" a'i bod felly "yn addas ystyried cynnwys y rhain mewn Bil gan y Senedd yn y dyfodol".

**24.** O ran goblygiadau ariannol, ym mharagraff 66 o'r Memorandwm, mae'r Gweinidog yn nodi bod Llywodraeth y DU "yn bwriadu darparu rhyddhadau newydd ar ôl i'r Bil gael ei basio, a bydd manylion y rhain yn cael eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth". Mae'r Gweinidog yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn aros am ragor o wybodaeth am unrhyw gyllid canlyniadol a fyddai'n deillio o gynlluniau o'r fath.

**25.** Daw'r Gweinidog i'r casgliad bod angen rhoi ystyriaeth bellach i'r pwerau dirprwyedig yng nghymal 13 a pharagraffau 49 a 50 o'r Atodlen, ac na all felly argymell eto fod y Senedd yn cydsynio i'r Bil yn ei gyfanrwydd.[11]

[9] Y Memorandwm Cyntaf, paragraff 57. Gweler hefyd baragraff 58.
[10] Y Memorandwm, paragraff 59
[11] Y Memorandwm, paragraff 67

### Camau gweithredu cysylltiedig gan Lywodraeth Cymru

**26.** Ym mis Mai 2023, lansiodd y Gweinidog ddau ymgynghoriad yn ymwneud ag ardrethi annomestig.

**27.** Ar 16 Mai 2023, lansiodd y Gweinidog ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer rhyddhad ardrethi annomestig gwelliannau. Yn y datganiad ysgrifenedig yn cyhoeddi lansiad yr ymgynghoriad, dywedodd y Gweinidog fod "Llywodraeth Cymru'n mynd ar drywydd ystod o ddiwygiadau yn ystod tymor presennol y Senedd, a fydd yn gwneud newidiadau hanfodol a chadarnhaol i ardrethi annomestig yng Nghymru." Nododd y Gweinidog hefyd, yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad, fod Llywodraeth Cymru yn cynnig darparu'r rhyddhad gwelliannau o 1 Ebrill 2024 ymlaen.

**28.** Ar 23 Mai 2023, lansiodd y Gweinidog ymgynghoriad ar gynigion am gymorth ar ffurf rhyddhad ardrethi annomestig ar gyfer ynni adnewyddadwy. Unwaith eto, yn y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddodd lansiad yr ymgynghoriad, dywedodd y Gweinidog y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ar drywydd amrywiaeth o ddiwygiadau yn ystod y Chweched Senedd i wneud newidiadau i ardrethi annomestig yng Nghymru, ac mai'r bwriad oedd darparu'r cymorth o 1 Ebrill 2024.

# 2. Ystyriaeth y Pwyllgor

**29.** Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 15 Mai 2023.[12] Gwnaethom ysgrifennu at y Gweinidog ar 18 Mai[13], a chawsom ymateb ar 1 Mehefin[14]. Gwnaethom gytuno ar ein hadroddiad ar 12 Mehefin.[15]

## Ein barn ni

### Darpariaethau y mae angen cydsyniad deddfwriaethol ar eu cyfer

**30.** Rydym yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, fel y'u nodir yn y Memorandwm.

**31.** Rydym yn cytuno bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 1, 3, 10, 11, 12, 13, 15, 17 a 19 o'r Bil a'r Atodlen i'r Bil.

[12] Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023
[13] Llythyr at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 18 Mai 2023
[14] Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 1 Mehefin 2023
[15] Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Mehefin 2023

**Argymhelliad 1.** Rydym o’r farn bod y cymalau o’r Bil a’r Atodlen i’r Bil a nodir yn y Memorandwm o fewn diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y'i disgrifir yn Rheol Sefydlog 29, a bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer o ganlyniad i hynny.

## Gweithio rhynglywodraethol a dull Llywodraeth Cymru

**32.** Mewn mannau amrywiol yn y Memorandwm (gan gynnwys paragraffau 4, 6, 7 a 63), mae’r Gweinidog yn datgan bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio a gofyn am ddarpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil. Roedd y ceisiadau hyn yn dilyn cais Llywodraeth Cymru i Lywodraeth y DU ymestyn ei rhaglen ar y cyd â CThEF i weithredu'r Rhaglen Digideiddio Ardrethi Busnes i gynnwys Cymru.[16]

**33.** Gwnaethom ofyn i’r Gweinidog gadarnhau pryd y dechreuodd trafodaethau cydweithredol â Llywodraeth y DU a phryd yr aed ati’n ffurfiol i geisio darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil.

**34.** Nodwn gadarnhad y Gweinidog fod trafodaethau wedi dechrau ym mis Mawrth 2022 a bod darpariaethau ar gyfer Cymru, ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud â digideiddio Ardrethi Busnes, wedi cael eu ceisio ar 20 Mehefin 2022. Nodwn hefyd ddatganiad y Gweinidog bod “trafodaethau'n cael eu cynnal yn gyfrinachol ac nid oedd yn glir a fyddai'r Bil yn cael ei gwblhau a'i gyflwyno”.[17]

**35.** Er ein bod yn croesawu parodrwydd y Gweinidog i fod yn dryloyw a rhoi manylion pryd y dechreuodd Llywodraeth Cymru ar ei gwaith gyda Llywodraeth y DU ar y Bil hwn, nid yw’n glir i ni pam na ddefnyddiodd Llywodraeth Cymru y 15 mis diwethaf i gyflwyno ei Bil ei hun.

**36.** Rydym yn cydnabod y dadleuon a gyflwynwyd gan y Gweinidog yn y Memorandwm ar gyfer bwrw ymlaen â darpariaeth i Gymru ym Mil y DU – dadleuon sy'n cynnwys y ffaith bod Bil Llywodraeth y DU “yn gyfle i gyflwyno diwygiadau penodol yn gynharach nag a fyddai’n bosibl fel arall” a’r ffaith y byddai aildrefnu Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Llywodraeth Cymru yn cael “effeithiau negyddol ehangach” ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Nid ydym wedi ein hargyhoeddi gan y dadleuon hyn, ac rydym yn ymhelaethu ar hyn yn y paragraffau a ganlyn.

**37.** Fel y noda'r Gweinidog yn y Memorandwm, ar 29 Mawrth 2022, cyhoeddodd y Gweinidog raglen i ddiwygio ardrethi annomestig a fyddai'n cael ei chyflawni

[16] Y Memorandwm, paragraff 4
[17] Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 1 Mehefin 2023, yr ateb i gwestiwn 1

dros y pedair blynedd ganlynol. Wrth wneud hynny, cydnabu'r Gweinidog fod Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn “nodi uchelgais … ar gyfer Cymru decach, wyrddach a chryfach… [sy’n] sail i unrhyw newidiadau posibl i'r system ardrethi annomestig.”[18]

**38.** Er bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiwygio'r system ardrethi annomestig felly, pan wnaeth y Gweinidog y cyhoeddiad hwn i'r Senedd, roedd eisoes mewn trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch gofyn am ddarpariaethau ym Mil y llywodraeth honno i gyflawni newidiadau i'r system ardrethi annomestig yng Nghymru. Roedd y trafodaethau hyn yn digwydd er nad oedd rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 wedi'i chadarnhau na'i chyhoeddi eto.

**39.** Mae'r Gweinidog hefyd wedi dweud wrthym ei bod yn aneglur i Lywodraeth Cymru pryd y byddai Bil Llywodraeth y DU yn cael ei gwblhau a'i gyflwyno, os o gwbl. O ystyried y datganiad hwn, nid yw’n glir i ni pam na benderfynnodd Llywodraeth Cymru fwrw ymlaen â’i Bil ei hun.

**40.** Rydym yn cydnabod bod tebygrwydd rhwng y systemau ardrethi annomestig yng Nghymru a Lloegr, a bod Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn gorff trawsffiniol. Felly, rydym yn deall datganiad y Gweinidog y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

**41.** Fodd bynnag, mae’r Gweinidog yn nodi mai’r bwriad yw cyflwyno’r newidiadau hyn “tra bo rhestr ardrethu 2023 ar waith ac o bosibl cyn i Fil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) sydd yn yr arfaeth, sef yr offeryn deddfwriaethol addas nesaf, gael y Cydsyniad Brenhinol”. Unwaith eto, os mai dim ond “o bosibl cyn” i Fil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) ddod i rym y caiff y newidiadau eu cyflwyno, ymddengys yr oedd cyfle i Lywodraeth Cymru ddefnyddio ei Bil arfaethedig ei hun i wneud y darpariaethau y mae wedi gofyn iddynt gael eu cynnwys ym Mil y DU ac y gellid bod wedi deddfu ochr yn ochr â Bil y DU.

**42.** Rydym hefyd yn nodi bod y Gweinidog wedi lansio dau ymgynghoriad yn ddiweddar ar gynigion ar gyfer rhyddhad ardrethi gwelliannau ac ar gynigion ar gyfer cymorth ardrethi ar gyfer ynni adnewyddadwy. Fel y nodwyd uchod ym mharagraff 11, mae'r Gweinidog yn bwriadu defnyddio'r pwerau gwneud rheoliadau yng nghymal 1 o’r Bil i ddiffinio ystyr “gwaith gwella cymwys” a “rhwydwaith gwresogi”; mae'r ymgynghoriadau'n gofyn am farn pobl ar y diffiniadau arfaethedig hyn. Nodwn ymhellach fod Llywodraeth Cymru yn cynnig darparu'r rhyddhad gwelliannau a'r cymorth ar gyfer ynni adnewyddadwy o 1 Ebrill

[18] Y Cyfarfod Llawn, 29 Mawrth 2022, Cofnod y Trafodion [194]

2024, pan ddaw cymal 1 i rym ar ôl i'r Bil gael ei ddeddfu. Mae'n anffodus nad yw'r Memorandwm yn cyfeirio at y naill ymgynghoriad na'r llall. Gallai pwerau dirprwyedig o'r fath fod wedi cael eu cynnwys mewn Bil a gyflwynwyd gan y Gweinidog a gallai'r Senedd fod wedi craffu arnynt.

**43.** Gan ychwanegu at ein pryderon am ddull gweithredu'r Gweinidog, ym mharagraff 64 o'r Memorandwm mae'n datgan nad yw wedi dilyn darpariaethau "dymunol" eraill yn y Bil ac yn cadarnhau y bydd hyn yn arwain at anghysondebau rhwng y systemau ardrethi yng Nghymru a Lloegr.

**44.** Er ein bod yn cydnabod barn y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi nodi "mai bach iawn yw'r risg y byddai'r darpariaethau hyn yn cael effaith negyddol", sy'n golygu "ei bod yn addas ystyried cynnwys y rhain mewn Bil gan y Senedd yn y dyfodol", mae'r Gweinidog yn fodlon felly dilyn trywydd a fydd yn cyflwyno anghysondebau newydd yn y ddwy system.

**45.** Fel y dywedasom yn fwyaf diweddar yn ein hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Gwarchodaeth rhag Aflonyddu ar sail Rhyw yn Gyhoeddus[19], mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'n barn y dylai fod yn bosibl chwilio am gyfleoedd i'r Senedd a Senedd y DU ddeddfu ochr yn ochr â'i gilydd yn hytrach na mynd ar drywydd Bil ar gyfer Cymru a Lloegr. Byddai hyn yn dal i ganiatáu ar gyfer cydweithredu rhwng llywodraethau ac ni fyddai'n arwain at anghysondebau i ddinasyddion nac yng nghyfraith Cymru a Lloegr, os dyna'r effaith a ddymunir. Byddai hefyd yn caniatáu i Aelodau o'r Senedd graffu'n briodol ar Fil (gan gynnwys cymryd tystiolaeth gan randdeiliaid) a phrofi'r ddeddfwriaeth yn ystod y camau diwygio.

**46.** Nodwn hefyd i ni gael ein synnu o glywed am ddull y Gweinidog, o ystyried y sylwadau a wnaed gan y Cwnsler Cyffredinol pan ddaeth i'n cyfarfod ar 16 Ionawr 2023. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym:

> *"I'm not aware of any circumstance where we have requested UK Government to legislate on our behalf, because I know that appears often in some of the narratives. But there is certainly no legislation before us at the moment that is something that we have asked UK Government to initiate on our behalf."*[20]

[19] Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Gwarchodaeth rhag Aflonyddu ar sail Rhyw yn Gyhoeddus, Mehefin 2023
[20] Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [154]

## Pwerau dirprwyedig

**47.** Fel y nodwyd ym mharagraff 13, mae'r Gweinidog yn nodi ym mharagraffau 45 i 47 o'r Memorandwm y pwerau sydd wedi'u dirprwyo mewn perthynas â chymal 13 a Rhan 4 o'r Atodlen. Nodwn fod y Gweinidog wedi dweud nad oedd digon o amser cyn cyflwyno'r Bil i ddod i gytundeb pendant ynghylch y pwerau y byddai'n briodol eu dirprwyo i Weinidogion Cymru, ac y disgwylir trafodaethau pellach ynghylch y pwerau penodol hyn wrth i'r Bil fynd yn ei flaen.

**48.** O ystyried ei bod yn ymddangos y bu cydweithio ar y Bil (fel y nodwn uchod ym mharagraff 34), gwnaethom ofyn am eglurhad pellach ynghylch sut a pham nad oedd "digon o amser cyn i'r Bil gael ei gyflwyno i ddod i gytundeb pendant ynghylch yr hyn a fyddai'n briodol o ran dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru". Dywedodd y Gweinidog wrthym, er bod y gwaith ymgysylltu wedi dechrau flwyddyn yn ôl, na ddatblygwyd y darpariaethau sy'n ymwneud â chymal 13 a'r Rhaglen Digideiddio Ardrethi Busnes tan fis Chwefror a Mawrth 2023.[21] Dywedodd y Gweinidog hefyd:

> *"Ar 14 Chwefror, ysgrifennais at y Gweinidogion Bil perthnasol i ofyn am fanylion y darpariaethau a oedd yn cael eu datblygu ac yn gofyn a fyddai modd ystyried eu hestyn i Gymru. Yn dilyn ymateb cadarnhaol ac ystyriaeth o'r cynigion manwl, ceisiais ddarpariaethau yn ffurfiol ar 17 Mawrth a gofynnais am drafodaeth bellach mewn perthynas â'r pwerau dirprwyedig perthnasol. Roeddwn yn cydnabod na fyddai modd, o bosibl, i'r trafodaethau hynny gael eu cwblhau cyn i'r Bil gael ei gyflwyno, a bu rhagor o ohebiaeth rhyngof a Gweinidogion y Bil."*[22]

**49.** Os bydd trafodaethau Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU yn arwain at wneud diwygiadau sy'n rhoi pwerau dirprwyedig newydd i Weinidogion Cymru pan fydd Tŷ'r Arglwyddi yn ystyried y Bil, gwnaethom ofyn i'r Gweinidog gadarnhau y byddai'n gosod y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol gofynnol mewn modd amserol i ganiatáu digon o amser i bwyllgorau'r Senedd ymgymryd â'u gwaith craffu.

**50.** Cadarnhaodd y Gweinidog wrthym fod trafodaethau Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU ar y mater hwn wedi dod i ben tra bod y Bil yn mynd drwy Dŷ'r

[21] Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 1 Mehefin 2023, yr ateb i gwestiwn 2a
[22] Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 1 Mehefin 2023, yr ateb i gwestiwn 2a

Cyffredin ac nad oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r Bil o ganlyniad i'r trafodaethau hynny. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

> *"Bwriad Llywodraeth Cymru yw cefnogi'r darpariaethau yn y Bil a estynnwyd i Gymru yn eu cyfanrwydd.*
>
> *Mae'r pwerau a ddirprwywyd i Gomisiynwyr Cyllid a Thollau EF yn gyfyngedig. Nid oes angen iddynt gael eu harfer i alluogi'r fframwaith deddfwriaethol a nodir yn y Bil i weithredu, a dim ond pan ystyrir bod angen newid gweinyddol perthnasol i sicrhau bod y rhaglen DBR yn gweithredu'n effeithiol y byddant yn cael eu defnyddio. Er y byddai unrhyw ddeddfwriaeth eilaidd a wneir o dan y pwerau dirprwyedig yn newid y gofynion a roddir ar dalwyr ardrethi annomestig yng Nghymru, byddai hefyd yn effeithio'n uniongyrchol ar y swyddogaethau a roddir gan y Bil i CThEF.*
>
> *Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiynwyr CThEF ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud is-ddeddfwriaeth o dan y pwerau dirprwyedig ac i'r graddau y mae'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru. Bydd y dull hwn yn galluogi i amcanion y rhaglen DBR gael eu cyflawni ac i'r manteision bwriadedig gael eu sicrhau yng Nghymru. Dim ond CThEF sy'n gallu darparu DBR i Gymru, gan fod y rhaglen yn dibynnu ar rannu a chysylltu â gwybodaeth a gedwir ganddo mewn perthynas â threthi heb eu datganoli, yn ogystal ag ardrethi annomestig."*[23]

**51.** Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd y byddai'n gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol "i egluro safbwynt Llywodraeth Cymru ar y mater hwn ac i ymdrin ag unrhyw welliannau a wneir i'r Bil, mewn modd amserol."[24]

**52.** Er ein bod yn croesawu esboniad y Gweinidog o'i safbwynt newydd ynghylch y pwerau dirprwyedig yng nghymal 13 a'r Atodlen, awgrymwn yn barchus nad yw'r esboniad mor gyflawn ag y byddem wedi ei ddisgwyl.

**53.** Yn benodol, o ystyried bod y Gweinidog yn argymell bod y Senedd yn gwrthod rhoi ei chydsyniad ar gyfer Bil oherwydd y pwerau dirprwyedig hyn, o ystyried nad yw trafodaethau'r Gweinidog â Llywodraeth y DU wedi arwain at

[23] Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 1 Mehefin 2023, yr ateb i gwestiwn 2b
[24] Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 1 Mehefin 2023, yr ateb i gwestiwn 2b

ddiwygiadau i destun y Bil, byddem yn croesawu eglurhad amserol a manylion pellach ynghylch pam y mae'r Gweinidog bellach yn fodlon ar gymal 13 a pharagraffau 49 a 50 o'r Atodlen.

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Gweinidog egluro a rhoi rhagor o fanylion i'r Senedd ynghylch pam y mae Llywodraeth Cymru wedi newid ei safbwynt fel ei bod bellach yn fodlon ar y pwerau dirprwyedig yng nghymal 13 ac ym mharagraffau 49 a 50 o'r Atodlen i'r Bil. Dylai'r Gweinidog ddarparu'r eglurhad a'r manylion hyn o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi, neu dylai gwybodaeth o'r fath gael ei nodi yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol nesaf a gyflwynir gerbron y Senedd, pa un bynnag sydd gynharaf.

**54.** Ym mharagraffau 15 ac 16 uchod, rydym yn tynnu sylw at y ffaith bod y Gweinidog, ym mharagraff 39 o'r Memorandwm yn nodi bod cymal 15(3)(d) “yn newid y weithdrefn ar gyfer gwneud rheoliadau o’r weithdrefn gadarnhaol ‘gwnaed’ i’r weithdrefn gadarnhaol ddrafft”. Nodwn ymhellach fod y pŵer hwn i wneud rheoliadau, a'r weithdrefn graffu gadarnhaol sydd ynghlwm wrtho, wedi ei ddirprwyo i Weinidogion Cymru drwy Ddeddf 2021, ac ni roddir esboniad manwl pam y mae'r Gweinidog yn defnyddio Bil y DU i newid gweithdrefn graffu ar gyfer pŵer dirprwyedig a gymeradwywyd gan y Senedd ei hun namyn dwy flynedd yn ôl.

**55.** Felly, gwnaethom ofyn i’r Gweinidog roi esboniad trylwyr ynghylch pam fod y newidiadau a gyflwynwyd gan gymalau 15(3)(d) a 15(4) yn cael eu gwneud. O ran cymal 15(3)(d), rydym yn nodi esboniad y Gweinidog:

> *“Mae'r pŵer perthnasol i wneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru amnewid effaith y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar osod y lluosydd ardrethi annomestig. Mae'r pŵer hwn wedi'i arfer yn flynyddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, i rewi'r lluosydd, fel rhan o'r pecyn cymorth a ddarparwyd i drethdalwyr yn ystod y pandemig ac yn sgil y pwysau economaidd dilynol. Gan fod y penderfyniadau polisi ac ariannu cysylltiedig yn rhan o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru, a gyhoeddir ym mis Rhagfyr bob blwyddyn, mae'r cyfyngiadau amseru y mae’r gweithdrefnau presennol yn eu gosod ar arfer y pŵer hwn, gan gynnwys y rhyngweithio ag ystyriaeth y Senedd o'r adroddiad cyllid llywodraeth leol, wedi bod yn her ymarferol. Mewn rhai blynyddoedd mae hyn wedi cael effaith negyddol ar yr amser sydd ar gael ar gyfer gwaith craffu'r Senedd ar y ddeddfwriaeth, wrth i’r adroddiadau cyllid*

*llywodraeth leol gael eu hystyried yn gymharol fuan ar ôl cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft.*

*Mae Cymal 15(3)(d) yn dileu'r dyddiad terfynol presennol (cyn 1 Mawrth neu cyn i'r Senedd gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol, pa un bynnag yw'r cynharaf) ar gyfer cymeradwyo'r rheoliadau gan y Senedd ac yn sicrhau bod drafft o'r rheoliadau yn destun craffu gan y Senedd cyn iddynt gael eu gwneud. Felly, nid wyf yn ystyried bod newid y weithdrefn o'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn israddio'r gwaith craffu. Os rhywbeth, yn ogystal â chael gwared ar gyfyngiadau amseru diangen, bydd yn helpu i sicrhau bod gan y Senedd amser priodol i graffu ar y rheoliadau."*[25]

**56.** O ran cymal 15(4) a'r newidiadau y mae'r Gweinidog o'r farn y byddant yn dileu cyfyngiad amseru sy'n "atal awdurdodau lleol rhag bwrw ymlaen â swyddogaethau bilio yn amserol pan fo gwerth y lluosydd yn hysbys yn gynharach" (gweler paragraffau 17 i 19 uchod), nodwn farn y Gweinidog y bydd dileu'r cyfyngiad presennol:

*"…yn sicrhau y gellir rhoi eglurder i awdurdodau bilio a thalwyr ardrethi yng Nghymru cyn gynted â phosibl ac na fyddant o dan anfantais o'u cymharu â'r rhai yn Lloegr oherwydd cyfyngiadau gweithdrefnol nad ydynt yn cryfhau'r craffu (ac a allai gyfyngu arno mewn rhai amgylchiadau)."*[26]

**57.** Nodwn ymhellach ddatganiad y Gweinidog ei bod o'r farn y bydd y newidiadau a wneir gan gymalau 15(3)(d) a 15(4), gyda'i gilydd, "yn sicrhau bod gan y Senedd gyfle cyson i graffu cyn gwneud rheoliadau ac yn lleihau'r risg o oedi cyn anfon biliau ardrethi annomestig" a fydd "o fudd i awdurdodau lleol ac i dalwyr ardrethi yng Nghymru".[27]

**Casgliad 1.** Er ein bod yn croesawu'r manylion y mae'r Gweinidog wedi'u rhoi yn dilyn ein cais, credwn y dylai'r manylion hyn fod wedi'u cynnwys yn y Memorandwm. O ystyried bod y Senedd wedi cymeradwyo'r pŵer dirprwyedig namyn dwy flynedd yn ôl, dylai'r Gweinidog fod wedi bod yn fwy eglur a thryloyw ag Aelodau ynghylch bwriad Llywodraeth Cymru.

[25] Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 1 Mehefin 2023, yr ateb i gwestiwn 3
[26] Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 1 Mehefin 2023, yr ateb i gwestiwn 3
[27] Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 1 Mehefin 2023, yr ateb i gwestiwn 3

**58.** Mae nifer o faterion sy'n codi o ymateb y Gweinidog i'n cwestiynau y credwn y dylai'r Gweinidog fynd i'r afael â hwy cyn y ddadl cydsyniad deddfwriaethol berthnasol yn y Senedd.

**59.** Yn gyntaf, fel y nodwn uchod, mae'n anffodus bod y Gweinidog yn ceisio defnyddio Bil y DU i newid y weithdrefn graffu ar gyfer pŵer gwneud rheoliadau y cytunodd Aelodau o'r Senedd i'w ddirprwyo i Weinidogion Cymru yn 2021, yn enwedig gan na chafodd y cam hwn ei rannu ag Aelodau o'r Senedd mewn ffordd fwy tryloyw.

**Argymhelliad 3.** Dylai'r Gweinidog gadarnhau a oedd Llywodraeth Cymru yn chwilio am opsiynau i ddefnyddio deddfwriaeth a gyflwynwyd i'r Senedd i geisio newid y weithdrefn graffu ar gyfer rheoliadau a wnaed o dan baragraff 5(13A) yn Atodlen 7 i *Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988*.

**60.** Wrth wneud yr argymhelliad hwn, nodwn y byddai ein hopsiwn a ffefrir o ddefnyddio bil Cymreig ar gyfer y ddeddfwriaeth hon wedi datrys y mater hwn.

**61.** Nodwn ddatganiadau'r Gweinidog fod y gweithdrefnau craffu presennol, gan gynnwys rhyngweithio ag ystyriaeth y Senedd o'r adroddiad ar gyllid llywodraeth leol, "wedi bod yn her ymarferol" ac "mewn rhai blynyddoedd mae hyn wedi cael effaith negyddol ar yr amser sydd ar gael ar gyfer gwaith craffu'r Senedd ar y ddeddfwriaeth".

**62.** Nid yw'n glir pa amserlen y mae'r Gweinidog yn cyfeirio ati pan ddywed "rhai blynyddoedd". Fel y deallwn, newidiodd Deddf 2021 y lluosydd a ddefnyddir yn y system ardrethi annomestig o'r mynegai prisiau manwerthu i'r mynegai prisiau defnyddwyr yn unig, ac ni wnaeth unrhyw newidiadau i'r amserlenni sy'n ymwneud â gweithdrefnau craffu.

**63.** Os oedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o heriau ymarferol a chyfyngiadau amseru cyn 2021, nid yw'n glir pam na ddefnyddiwyd y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) i geisio newid y weithdrefn graffu ar gyfer y pŵer i wneud rheoliadau.

**64.** Os yw'r Gweinidog yn cyfeirio at y ddwy flynedd sydd wedi mynd heibio ers i Ddeddf 2021 ddod i rym pan ddywed "rhai blynyddoedd", byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Gweinidog yn nodi'n fanwl yr heriau ymarferol a'r effeithiau negyddol ar waith craffu'r Senedd, gan ddefnyddio'r broses o gyflwyno a gwneud Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2022 a Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2023 fel enghreifftiau ymarferol. Fel y Pwyllgor

sy'n gyfrifol am graffu ar yr holl is-ddeddfwriaeth a gyflwynir gerbron y Senedd, ni chredwn fod unrhyw faterion o'r fath wedi cael eu tynnu at ein sylw.

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Gweinidog nodi'n fanwl, gan ddefnyddio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2022 a Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2023 fel enghreifftiau ymarferol, yr heriau ymarferol a'r effeithiau negyddol *o ran g*waith craffu’r Senedd yn sgil y weithdrefn bresennol ar gyfer gwneud rheoliadau o dan baragraff 5(13A) yn Atodlen 7 i *Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988*.